

Tasg 1

Beth mae *Brexit* yn ei olygu?

1. Nodwch pwy yw 'Theresa' sy'n cael ei henwi yn y limrig.
2. Trafodwch ac esboniwch beth yw ystyr y gair 'fisa'.
3. Mewn grwpiau, rhestrwch ddeg lle tramor lle mae pobl yn hoffi mynd ar eu gwyliau.

Pa leoedd ar eich rhestr chi sy'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd?

Trafodwch sut fydd Brexit yn debygol o effeithio ar wyliau i wledydd Ewrop yn y dyfodol.

4. Limrig yw'r gerdd ar y brif sgrin. Edrychwch arni'n ofalus i weld beth yw nodweddion limrig.

Atebwch y cwestiynau hyn:

- Sawl llynell sydd mewn limrig?
- Sawl sillaf sydd mewn limrig?
- Beth yw'r patrwm odli?
- Pa nodwedd arall a welir mewn limrig fel arfer?

Gan ddilyn y patrwm sillafau ac odli, a ellwch chi lunio limrig?
Cofiwch fod angen i'r odlau fod yn ddoniol, ac i'r llynell olaf gynnwys *punchline* os yw'n bosib.

Sylwch ar y nodweddion canlynol wrth lunio limrig:

- Mae'r llynell gyntaf fel arfer yn cynnwys enw person neu le.
- Mae llynell 1, 2 a 5 yn odli â'i gilydd.
- Yna mae llynell 3 a 4 yn 5 sillaf yr un ac yn odli â'i gilydd.

Ceisiwch feddwl sut mae eich limrig yn mynd i orffen a gweithio tuag at y pwynt hwnnw o linell 1. Mae angen sicrhau fod yr odl yn caniatáu digon o bosibiliadau yn eich geirfa i chi.

Cofiwch ddewis teitl bachog. Gall teitl awgrymu trywydd y limrig, neu roi manylion ychwanegol na lwyddwyd i'w cynnwys yn y limrig.

Cymharwch eich limrigau ymysg eich gilydd gan benderfynu pa un sy'n gwneud i chi chwerthin fwyaf.